OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2001 No. 2678

## Rheoliadau Newid Categori Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2001

**Ailgyfansoddi'r corff llywodraethu**

**13.**—(1) Rhaid i'r corff llywodraethu presennol a'r awdurdod addysg lleol sicrhau, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl dechrau'r cyfnod gweithredu (a beth bynnag o fewn cyfnod o dri mis gan ddechrau ar y dyddiad gweithredu), fod y corff llywodraethu yn cael ei ailgyfansoddi yn unol â'r offeryn llywodraethu newydd a'r Atodlen 12 addasedig i'r Ddeddf.

(2) Rhaid i'r corff llywodraethu presennol arfer ei swyddogaethau o dan y Ddeddf a'r Rheoliadau hyn mewn ffordd a fydd yn caniatáu i'r awdurdod addysg lleol gyflawni ei swyddogaethau yntau o dan baragraff (1).